CDLl

# Ceredigion

## Cynllun Datblygu Lleol
## 2007 - 2022

## Canllaw Cynllunio Atodol

## Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion



















**Mabwysiedig Ionawr 2015**

Cyngor Sir
CEREDIGION
CEREDIGION
County Council

Mae’r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn un o gyfres o ganllawiau sy’n ategu polisïau’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Er y bydd penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio’n seiliedig ar bolisïau’r CDLl (fel y nodir yn rhan 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004), mae cynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio Canllawiau Cynllunio Atodol i nodi cyfarwyddyd manwl ynghylch y modd y bydd polisïau cynlluniau datblygu’n cael eu gweithredu mewn amgylchiadau neu ardaloedd penodol. Rhaid i Ganllawiau Cynllunio Atodol fod yn gyson â pholisïau cynlluniau datblygu a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol, a gellir eu hystyried yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

Nid yw’r Canllaw yn nodi polisi’n annibynnol ar y CDLl; ei unig ddiben yw darparu cyfarwyddyd atodol. Felly, yn unol â Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004, nid ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol cynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar wahân ohono. Gellir gweld canlyniadau’r Arfarniad Cynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol (AC/AAS) o’r polisïau sy’n berthnasol i’r Canllaw Cynllunio Atodol hwn:

- DM03: Teithio Cynaliadwy

yn Atodiad 3 Adroddiad Terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (Ebrill 2013).

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad 1**

**2. Yr angen am Ganllaw Cynllunio Atodol ynghylch Safonau Parcio 1**

**3. Dynodi Parthau Parcio 3**

Canolfannau Gwasanaethau Trefol 4

Canolfannau Gwasanaethau Gwledig 5

Aneddiadau Cyswllt a enwyd 5

Lleoliadau Eraill 6

Meysydd Parcio Tymhorol neu Dros Dro 6

Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth 6

**4. Rhoi'r Safonau Parcio ar waith 7**

**5. Nodiadau Ceredigion ynghylch Safonau Parcio Cymru 2008 Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru 8**

**Atodiad 1 – Safonau Parcio Cymru 2008 Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru 10**

**Atodiad 2 – Rhestr o aneddiadau a'r parth parcio perthnasol 12**

Rhestr o aneddiadau'r CDLl (ar sail y rhestr Saesneg sydd yn nhrefn yr wyddor) 12

## 1. Cyflwyniad

Mae defnyddio safonau parcio'n ei gwneud yn bosibl mabwysiadu dull tryloyw a chyson o ddarparu cyfleusterau parcio sy'n gysylltiedig â datblygiad newydd neu achos o newid defnydd. Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn nodi sut y bydd Safonau Parcio Cymru 2008, a luniwyd gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, yn cael eu gweithredu ar draws Ceredigion.

Mae'r canllaw hwn yn ategu polisi DM03 "Teithio Cynaliadwy" Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion, a fabwysiadwyd ar 25 Ebrill 2013, ac mae'n berthnasol i bob penderfyniad cynllunio yng Ngheredigion.

## 2. Yr angen am Ganllaw Cynllunio Atodol ynghylch Safonau Parcio

Drwy'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn mabwysiadu Safonau Parcio Cymru 2008 a luniwyd gan Gymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru (gweler Atodiad 1). Mae Safonau Parcio Cymru yn darparu gofynion parcio manwl yn ôl y defnydd tir a'r math o ddatblygiad sydd dan sylw. Mae'r safonau'n ymdrin â phob math o ardaloedd adeiledig a gwledig.

Dylai'r gofynion parcio a nodir yn Safonau Parcio Cymru 2008 gael eu hystyried yn uchafswm safonau (*maximum*), h.y. dylid eu hystyried yn ffigurau uchaf. Dylid nodi bod Safonau Parcio Cymru wedi osgoi defnyddio'r term 'uchafswm' yn Gymraeg (a'r term '*maximum*' yn Saesneg) oherwydd bod modd i ddarllenwyr ei gamddehongli.

Mae Safonau Parcio Cymru 2008 yn ei gwneud yn bosibl gostwng lefel y cyfleusterau parcio sy'n ofynnol fel rheol yn rhan o ddatblygiad, o ganlyniad i gynaliadwyedd y datblygiad. Gall defnyddio'r meini prawf cynaliadwyedd a nodir yn Atodiad 6 Safonau Parcio Cymru 2008 arwain at ostwng lefel y cyfleusterau parcio sy'n ofynnol yn rhan o ddatblygiad. Gellir defnyddio'r meini prawf i fesur cynaliadwyedd datblygiad o safbwynt y pellter cerdded i gyfleusterau lleol, trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau beicio ac amlder gwasanaethau trafnidiaeth

gyhoeddus yn lleol. Bydd angen caniatâd ffurfiol gan Dîm Priffyrdd y Cyngor cyn y gellir cymryd unrhyw gamau i lacio Safonau Parcio Cymru 2008, ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid cynnal Asesiad Trafnidiaeth Lleol mewn perthynas ag unrhyw gamau o'r fath.

Ynghyd â'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn ynghylch Safonau Parcio, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi llunio Canllaw Cynllunio Atodol ynghylch Asesiad Trafnidiaeth, sy'n nodi'r trothwyau is ar gyfer Asesiadau Trafnidiaeth Lleol, y bwriedir eu defnyddio ledled Ceredigion. Ni fydd Cynllun Teithio yn ofynnol bob amser ar gyfer Asesiadau Trafnidiaeth Lleol; fodd bynnag, mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn nodi'r mathau o ddatblygiadau y bydd yn ofynnol cael Cynllun Teithio ar eu cyfer o ganlyniad i ofynion parcio. Mae hynny'n cyd-fynd â chanllawiau a bennwyd yn genedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol 18 (TAN 18) ac yn cyd-fynd â Chanllaw Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ceredigion ynghylch Asesiad Trafnidiaeth.

Mae Safonau Parcio Cymru yn nodi'r mathau o ddatblygiadau y bydd arnynt angen Cynllun Teithio fel amod caniatâd cynllunio. Nid oes angen Cynllun Teithio bob amser ar gyfer Asesiad Trafnidiaeth, ond mae'n debyg y bydd yn ofynnol yng nghyswllt y trothwyau ar gyfer Asesiadau Trafnidiaeth Lleol (gweler Canllaw Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ceredigion ynghylch Asesiad Trafnidiaeth) mewn amgylchiadau sy'n debyg i'r rhai lle mae Cynllun Teithio yn ofynnol dan Safonau Parcio Cymru. Gallai Cynllun Teithio arwain wedyn at gamau i lacio gofynion parcio. Dylid nodi y gallai fod angen Cynlluniau Teithio ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau hefyd, nad ydynt yn gallu bodloni gofynion parcio.

Mae Safonau Parcio Cymru 2008 yn cynnwys gofyniad sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnwys system o barthau at ddibenion parcio mewn Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae Safonau Parcio Cymru 2008 yn nodi chwe pharth o'r fath, ac mae gan bob un ohonynt lefelau penodol gwahanol o ofynion parcio at ddibenion rheoli datblygu. Mae'r safonau'n nodi mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol unigol yw penderfynu pa rai o'r parthau sy'n berthnasol i'w hardal awdurdod lleol nhw a ble y dylid gosod ffiniau'r parthau yn eu hardal nhw.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn nodi'r parthau sy'n berthnasol yng Ngheredigion a'r mannau lle maent yn berthnasol. Mae rhestr o'r holl aneddiadau a gydnabyddir gan y CDLl ynghyd â'u parthau i'w gweld yn Atodiad 2.

## 3. Dynodi Parthau Parcio

Mae Safonau Parcio Cymru 2008 yn diffinio chwech o barthau parcio, sydd wedi'u rhifo o 1 i 6. Mae'r gwahaniaeth rhwng pob un o'r parthau wedi'i seilio i raddau helaeth ar lefelau amrywiol o hygyrchedd i wasanaethau a chyfleusterau. Mae disgrifiadau'r parthau, a'r gofynion parcio felly, yn amrywio o Barth 1 sy'n berthnasol i ganol dinasoedd yn unig lle ceir lefelau uchel iawn o hygyrchedd i bob gwasanaeth, i Barth 6 sy'n berthnasol i leoliadau gwledig lle ceir lefelau isel o hygyrchedd.

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn nodi'r safonau parcio diofyn ar gyfer y Sir, a fydd yn berthnasol neu a fydd yn amodol ar ddisgresiwn swyddogion priffyrdd wrth iddynt ymdrin â rhinweddau cynigion unigol.

Mae'r gwaith o ddynodi'r parthau parcio yng Ngheredigion wedi'i seilio ar ddisgrifiadau'r parthau, sydd i'w gweld yn Safonau Parcio Cymru 2008. Felly, mae'r parthau parcio yng Ngheredigion wedi'u pennu ar sail dull o farnu hierarchaeth aneddiadau strategol y CDLl o safbwynt y canlynol:

a) Nifer, ystod a nodweddion y cyfleusterau sydd o fewn pellter cerdded; a
b) Lefel y ddarpariaeth o ran trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig nifer ac amlder y gwasanaethau bysiau sydd ar gael.

O gofio natur wledig Ceredigion, bu'n rhaid gwneud rhywfaint o waith i sicrhau bod y broses o ddynodi parthau'n addas i Geredigion, yn enwedig yng nghyswllt y ffactor sy'n ymwneud ag amlder trafnidiaeth gyhoeddus, a nodwyd yn y safonau. Mae hynny wedi sicrhau bod parthau, nad ydynt efallai'n bodloni'r holl feini prawf ar gyfer parth 2 o safbwynt trafnidiaeth gyhoeddus, wedi cael eu hystyried yn barth 2 er hynny gan fod trothwy is wedi'i gyflwyno ar gyfer hygyrchedd i drafnidiaeth gyhoeddus, o gofio natur wledig yr ardal leol.

Dylid nodi nad oes unrhyw ardaloedd yng Ngheredigion wedi'u diffinio'n barth 1, gan fod y parth hwnnw'n gofyn am lefelau uchel iawn o hygyrchedd, sy'n nodweddiadol o ganolfannau trefol mwy o faint.

Mae'r hierarchaeth aneddiadau a nodir yn y CDLl yn cynnwys Canolfannau Gwasanaethau Trefol, Canolfannau Gwasanaethau Gwledig, Aneddiadau Cyswllt a enwyd a Lleoliadau Eraill. Fel y mae'r enw yn awgrymu, mae Canolfannau Gwasanaethau yn aneddiadau sy'n darparu gwasanaethau a chyfleusterau y mae modd dangos eu hystod a'u dyfnder, ac maent yn gymharol hygyrch i'r sawl sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Er hynny, mae'r modd y caiff gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus eu hamserlennu a phrinder cymharol gwasanaethau o'r fath yn golygu bod y safonau parcio diofyn sy'n ofynnol yng Ngheredigion yn adlewyrchu lefel eithaf uchel o ddibyniaeth ar gerbydau modur preifat, ac yn rhoi disgresiwn hefyd i'r awdurdod lleol achub ar bob cyfle i gytuno ar ddulliau mwy cynaliadwy o deithio.

Bernir bod ffiniau aneddiadau'r CDLl ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig yn diffinio'r ardaloedd y mae safonau'r parthau yn berthnasol iddynt. O safbwynt datblygiadau preswyl, dylid nodi nad yw'r safonau parcio'n amrywio ar gyfer parthau 2 – 6.  O ran egwyddor, felly, caiff un safon parcio ei defnyddio ar gyfer datblygiadau preswyl ledled Ceredigion. Mae'r safonau ar gyfer datblygiadau eraill yn ôl y math o ddefnydd tir yn wahanol ar gyfer gwahanol barthau neu gyfuniadau o barthau. Dyma'r parthau diofyn sy'n berthnasol i hierarchaeth aneddiadau'r CDLl (yn amodol ar ddisgresiwn swyddogion priffyrdd):

## Canolfannau Gwasanaethau Trefol

Er bod Aberystwyth, sef y dref neu'r Ganolfan Gwasanaethau Trefol fwyaf, yn cynnig gwasanaethau eithaf da yn lleol o safbwynt trafnidiaeth gyhoeddus, mae hefyd yn cynhyrchu cyfran sylweddol o deithiau mewn cerbydau modur at ddibenion sy'n ymwneud â gwaith, gwasanaethau iechyd, gweithgareddau manwerthu a gweithgareddau hamdden, o fannau sydd y tu allan i'r dref. Mae'r ffaith bod myfyrwyr yn berchen ar geir hefyd yn effeithio ar y dref ac mae hynny'n bwysig o safbwynt

recriwtio myfyrwyr i'r Brifysgol. Mae'r rhain yn ffactorau go iawn sy'n gofyn am roi safonau parcio ar waith yn bragmatig yn y dref yng nghyd-destun strategaeth ehangach ar gyfer Aberystwyth at ddibenion rheoli trafnidiaeth. Y safon ddiofyn ar gyfer parcio yn Aberystwyth/Llanbadarn Fawr/Penparcau (fel y caiff yr ardal ei diffinio gan Ffiniau Aneddiadau'r CDLl) yw parthau 2 – 3, a bydd hynny'n dibynnu ar ddisgresiwn swyddogion priffyrdd wrth iddynt ymdrin â rhinweddau cynigion unigol. Os yw'n debygol y bydd yn anodd darparu lleoedd parcio, neu os ceir amheuaeth ynghylch pa mor ddymunol fyddai cael lleoedd parcio, y sylfaen ar gyfer darpariaeth hyblyg neu amgen fydd cytuno ar fesurau lliniaru/mesurau'n ymwneud â thrafnidiaeth gynaliadwy, y bydd modd monitro a rheoli eu heffeithiolrwydd. (Mae'r trothwyau sydd i'w defnyddio ar gyfer Asesiadau Trafnidiaeth cenedlaethol a lleol, Cynlluniau Teithio ac ati i'w gweld yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Ceredigion ynghylch Asesiad Trafnidiaeth.)

Ar gyfer Canolfannau Gwasanaethau Trefol Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron, Adpar (Castellnewydd Emlyn), Llandysul a Thregaron, y safon ddiofyn ar gyfer parcio y tu mewn i Ffiniau'r Aneddiadau yw parthau 3 – 4, a bydd hynny'n dibynnu ar ddisgresiwn swyddogion priffyrdd wrth iddynt ymdrin â rhinweddau cynigion unigol.

## Canolfannau Gwasanaethau Gwledig

Mae'r CDLl yn rhestru 15 o Ganolfannau Gwasanaethau Gwledig (mae rhestr lawn ohonynt i'w gweld yn Atodiad 2). Y safon ddiofyn ar gyfer parcio yn yr aneddiadau hyn (y tu mewn i Ffiniau'r Aneddiadau) yw parthau 4 – 5, a bydd hynny'n dibynnu ar ddisgresiwn swyddogion priffyrdd wrth iddynt ymdrin â rhinweddau cynigion unigol. Bydd safonau diofyn parthau 4 – 5 yn berthnasol i gynigion dibreswyl sy'n ffinio ag aneddiadau sy'n Ganolfannau Gwasanaethau Gwledig.

## Aneddiadau Cyswllt a enwyd

Mae'r CDLl yn rhestru Aneddiadau Cyswllt a enwyd (mae rhestr lawn ohonynt i'w gweld yn Atodiad 2). Nid oes gan yr aneddiadau hynny ffin anheddiad. Bydd y safon ddiofyn ar gyfer parcio yn yr aneddiadau hyn yn berthnasol i'r ffurf adeiledig sydd

wedi'i chadarnhau.  Nodwyd mai'r safon ddiofyn yw parth 5, a bydd hynny'n dibynnu ar ddisgresiwn swyddogion priffyrdd wrth iddynt ymdrin â rhinweddau cynigion unigol.

## Lleoliadau Eraill

Mae pob ardal sydd y tu allan i Ganolfannau Gwasanaethau Trefol a Gwledig y CDLl a'r Aneddiadau Cyswllt a enwyd wedi'u dynodi yn barth 6, ac mae hynny'n adlewyrchu nodweddion eithriadol o wledig yr ardaloedd hynny.

Gall y parthau parcio cyfredol a restrwyd ar gyfer pob un o aneddiadau'r CDLl gael eu newid, oherwydd mae'n bosibl y bydd datblygiadau yn y dyfodol yn arwain at gyfleusterau gwell o ran trafnidiaeth gyhoeddus, a fydd yn golygu bod yn rhaid ailddiffinio'r parth parcio.

## Meysydd Parcio Tymhorol neu Dros Dro

Bydd Ceredigion yn gofyn am ddarpariaeth amgen, pryd bynnag y bo modd, pan gaiff defnydd parhaol ei gynnig ar gyfer safleoedd a ddefnyddir fel meysydd parcio tymhorol neu dros dro.

Bydd Ceredigion yn gwrthsefyll unrhyw gamau a allai arwain at golli meysydd parcio tymhorol neu dros dro er mwyn gwneud lle i ddefnydd parhaol amgen, oni bai bod darpariaeth amgen ddigonol yn cael ei chynnig.

## Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth

Mae'r CDLl o blaid creu cyfleoedd i barcio a theithio/parcio a rhannu mewn lleoliadau priodol ledled y Sir.  Fel rheol, bydd y lleoliadau hynny mewn Canolfannau Gwasanaethau/wrth ymyl Canolfannau Gwasanaethau neu wrth gyffyrdd strategol. Dylai fod ganddynt gyfleusterau, neu dylent ddarparu cyfleusterau, i sicrhau bod teithwyr yn ddiogel ac yn medru bod dan gysgod wrth iddynt newid o'r naill ddull o deithio i'r llall.

# 4. Rhoi’r Safonau Parcio ar waith

Yn amodol ar Nodiadau Ceredigion ynghylch Safonau Parcio Cymru 2008 Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru, a nodir isod, bydd y dynodiadau parthau parcio sydd yn adran 5 y Canllaw Cynllunio Atodol hwn yn cael eu defnyddio ar y cyd â Safonau Parcio Cymru 2008 (Atodiad 1) a’r meini prawf cynaliadwyedd sydd yn y ddogfen honno, er mwyn asesu’r gofynion parcio ar gyfer pob datblygiad yng Ngheredigion yn y dyfodol. Bydd y dull gweithredu hwn yn amodol ar ddisgresiwn swyddogion ac unrhyw Ganllaw Cynllunio Atodol dilynol a manwl ynghylch parcio, sy’n benodol i aneddiadau ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

# 5. Nodiadau Ceredigion ynghylch Safonau Parcio Cymru 2008 Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru

| | |
|---|---|
| *Tudalen 8, paragraff 6.7:* | *Safonau cenedlaethol yw'r rhain, sy'n berthnasol dan TAN 18. Mae'r trothwyau lleol sy'n berthnasol yng Ngheredigion i'w gweld yn y Canllaw Cynllunio Atodol ynghylch Asesiad Trafnidiaeth.* |
| *Tudalen 15, Tabl:* | *O safbwynt parth 2, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cyflwyno'r elfennau ychwanegol canlynol:* |

| *Preswyl: Adeiladau Newydd ac Addasiadau: Parthau 2 – 6* | *Math o Ddatblygiad* | *Preswylwyr* | *Ymwelwyr* |
|---|---|---|---|
| | *Fflat < 2 ystafell wely* | *Dim* | *Dim* |
| | *Fflat > 2 ystafell wely* | *0.5 i 1 lle i bob uned* | *Dim* |

| | |
|---|---|
| *Tudalen 16, Parthau 2 i 6:* | *O safbwynt swyddfeydd, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio ei ddisgresiwn i amrywio'r trothwy ar gyfer arwynebedd llawr a'r safon parcio'n ymwneud â nifer y lleoedd i bob $m^2$, gan ystyried lefel y traffig a allai gael ei chreu gan ymwelwyr yn ogystal â nifer y gweithwyr y mae angen lleoedd arnynt.* |
| *Tudalen 18, Parthau 2 i 6:* | *O safbwynt siopau ac ati, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio ei ddisgresiwn i roi'r gofyniad parcio sy'n gysylltiedig â'r datblygiad mewn rhyw fath o gyd-destun, o safbwynt cynnal lefelau strategol y ddarpariaeth gyfredol ar gyfer parcio yn yr ardal neu wneud iawn am unrhyw golled, neu drwy gyfeirio at Strategaeth Rheoli Traffig os oes un ar gael.* |
| *Tudalen 20:* | *O safbwynt warysau manwerthu a garejis, bydd Cyngor Sir Ceredigion yn defnyddio'r safonau hyn ym mharthau 2 i 6, oherwydd gallai achosion godi lle gallai rhai mentrau* |

| | |
|---|---|
| | *gwledig TAN 6 fod mewn ardaloedd parth 6. At hynny, o safbwynt Cyflenwyr Adeiladwyr (Masnachu a Manwerthu), hoffai Ceredigion nodi bod yr ystyriaeth a roddir i leoedd parcio anweithredol wedi'i seilio ar 1 lle fesul 80m$^2$ o ardal fewnol ac allanol ar gyfer arddangos cynnyrch a 10% o'r arwynebedd llawr gros.* |
| *Tudalen 25:* | *O safbwynt mannau adloniant, yng Ngheredigion dylai safonau y rhestrir eu bod yn berthnasol i barthau 2 – 4 fod yn berthnasol i barthau 2 – 3 yn unig. Yna, dylai'r safonau y rhestrir eu bod yn berthnasol i barthau 5 a 6 fod yn berthnasol yn hytrach i barthau 4 – 6.* |
| *Tudalen 31:* | *O gofio natur wledig Ceredigion, y prinder trafnidiaeth gyhoeddus a'r diffyg cysylltiadau â llwybrau cerdded/llwybrau beicio, bydd angen i'r ddarpariaeth o ran parcio ar gyfer pob datblygiad addysgol gael ei hystyried ar y cyd â'r Asesiad Trafnidiaeth ategol.* |

# Atodiad 1 – Safonau Parcio Cymru 2008 Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru

(Gweler y ddogfen pdf sydd ynghlwm)

# Atodiad 2 – Rhestr o aneddiadau a'r parth parcio perthnasol

## Aneddiadau'r CDLl (ar sail y rhestr Saesneg sydd yn nhrefn yr wyddor)

**Allwedd**

**Canolfan Gwasanaethau Trefol**
**Canolfan Gwasanaethau Gwledig**
Anheddiad Cyswllt

| Enw'r anheddiad | Yr anheddiad y mae'n gysylltiedig ag ef | Parth |
|---|---|---|
| **Aberaeron (Llwyncelyn)** | | **3/4** |
| Aber-arth | *yn gysylltiedig ag Aberaeron* | 5 |
| Aber-banc | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| **Aber-porth / Parc-llyn** | | **4/5** |
| **Aberystwyth/Llanbadarn Fawr/Waunfawr/Penparcau** | | **2/3** |
| Allt-y-blaca | *yn gysylltiedig â Llanybydder* | 5 |
| Bethania | *yn gysylltiedig â Llan-non* | 5 |
| Betws Bledrws | *yn gysylltiedig â Llanbedr Pont Steffan* | 5 |
| Betws Ifan | *yn gysylltiedig â Chastellnewydd Emlyn/Adpar* | 5 |
| Beulah | *yn gysylltiedig â Chastellnewydd Emlyn/Adpar* | 5 |
| Blaenannerch | *yn gysylltiedig ag Aber-porth* | 5 |
| Blaen-plwyf | *yn gysylltiedig ag Aberystwyth* | 5 |
| Blaen-porth | *yn gysylltiedig ag Aber-porth* | 5 |
| **Y Borth** | | **4/5** |

| Enw’r anheddiad | Yr anheddiad y mae’n gysylltiedig ag ef | Parth |
|---|---|---|
| **Bow Street** | | **4/5** |
| Brongest | *yn gysylltiedig â Chastellnewydd Emlyn/Adpar* | 5 |
| Bronnant | *yn gysylltiedig â Thregaron* | 5 |
| Bryn-gwyn | *yn gysylltiedig â Chastellnewydd Emlyn/Adpar* | 5 |
| Brynhoffnant | *yn gysylltiedig ag Aber-porth* | 5 |
| Caerwedros | *yn gysylltiedig â Cheinewydd* | 5 |
| Capel Bangor | *yn gysylltiedig ag Aberystwyth* | 5 |
| Capel Dewi (De) | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Capel Seion | *yn gysylltiedig ag Aberystwyth* | 5 |
| **Aberteifi** | | **3/4** |
| Cellan/Fisher’s Arms | *yn gysylltiedig â Llanbedr Pont Steffan* | 5 |
| **Cenarth** | | **4/5** |
| Cilcennin | *yn gysylltiedig â Felin-fach* | 5 |
| Ciliau Aeron | *yn gysylltiedig ag Aberaeron* | 5 |
| Cnwch-coch | *yn gysylltiedig â Llanilar* | 5 |
| Coed-y-bryn | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Comins-coch | *yn gysylltiedig ag Aberystwyth* | 5 |
| Cribyn | *yn gysylltiedig â Felin-fach* | 5 |
| Croes-lan | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Cross Inn (Llan-non) | *yn gysylltiedig â Llan-non* | 5 |
| Cross Inn (Ceinewydd) | *yn gysylltiedig â Cheinewydd* | 5 |

| Enw'r anheddiad | Yr anheddiad y mae'n gysylltiedig ag ef | Parth |
|---|---|---|
| Cwm-cou | *yn gysylltiedig â Chastellnewydd Emlyn/Adpar* | 5 |
| Cwrtnewydd | *yn gysylltiedig â Llanbedr Pont Steffan* | 5 |
| **Pontarfynach** | | **4/5** |
| Dihewyd | *yn gysylltiedig â Felin-fach* | 5 |
| Dôl-y-bont | *yn gysylltiedig â'r Borth* | 5 |
| Dre-fach | *yn gysylltiedig â Llanbedr Pont Steffan* | 5 |
| Eglwys-fach | *yn gysylltiedig â Thal-y-bont* | 5 |
| **Felin-fach/Ystrad Aeron** | | **4/5** |
| Y Ferwig | *yn gysylltiedig ag Aberteifi* | 5 |
| Ffostrasol | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Ffos-y-ffin | *yn gysylltiedig ag Aberaeron* | 5 |
| Gilfachreda | *yn gysylltiedig â Llannarth* | 5 |
| Goginan | *yn gysylltiedig ag Aberystwyth* | 5 |
| Gors-goch | *yn gysylltiedig â Llanbedr Pont Steffan* | 5 |
| Gwbert | *yn gysylltiedig ag Aberteifi* | 5 |
| Henllan | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Highmead | *yn gysylltiedig â Llanybydder* | 5 |
| Horeb | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| **Llanbedr Pont Steffan** | | **3/4** |
| Llanafan | *yn gysylltiedig â Llanilar* | 5 |
| **Llannarth** | | **4/5** |

| Enw'r anheddiad | Yr anheddiad y mae'n gysylltiedig ag ef | Parth |
|---|---|---|
| Llanddewibrefi | *yn gysylltiedig â Thregaron* | 5 |
| Llandre | *yn gysylltiedig â Bow Street* | 5 |
| Llandyfrïog | *yn gysylltiedig â Chastellnewydd Emlyn/Adpar* | 5 |
| Llandygwydd | *yn gysylltiedig â Chenarth* | 5 |
| **Llandysul** | | **3/4** |
| Llanfarian | *yn gysylltiedig ag Aberystwyth* | 5 |
| Llanfihangel-y-Creuddyn | *yn gysylltiedig â Llanilar* | 5 |
| Llangeitho | *yn gysylltiedig â Thregaron* | 5 |
| Llangoedmor | *yn gysylltiedig ag Aberteifi* | 5 |
| Llangorwen | *yn gysylltiedig ag Aberystwyth* | 5 |
| Llangrannog | *yn gysylltiedig ag Aber-porth* | 5 |
| Llangwyryfon | *yn gysylltiedig â Llanrhystud* | 5 |
| Llangybi | *yn gysylltiedig â Llanbedr Pont Steffan* | 5 |
| **Llanilar** | | **4/5** |
| **Llan-non** | | **4/5** |
| **Llanrhystud** | | **4/5** |
| Llanwnnen | *yn gysylltiedig â Llanbedr Pont Steffan* | 5 |
| **Llanybydder** | | **4/5** |
| Llechryd | *yn gysylltiedig ag Aberteifi* | 5 |
| Lledrod | *yn gysylltiedig â Llanilar* | 5 |
| Llwyn-y-groes | *yn gysylltiedig â Llanbedr Pont Steffan* | 5 |

| Enw’r anheddiad | Yr anheddiad y mae’n gysylltiedig ag ef | Parth |
|---|---|---|
| Maen-y-groes | *yn gysylltiedig â Cheinewydd* | 5 |
| Maesymeillion | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Mydroilyn | *yn gysylltiedig â Llannarth* | 5 |
| Nebo | *yn gysylltiedig â Llan-non* | 5 |
| **Ceinewydd** | | **4/5** |
| **Castellnewydd Emlyn, [Sir Gaerfyrddin] (Adpar)** | | **3/4** |
| Derwen-gam | *yn gysylltiedig â Llannarth* | 5 |
| Pennant | *yn gysylltiedig ag Aberaeron* | 5 |
| Penrhiw-llan | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| **Penrhyn-coch** | | **4/5** |
| Pentre’r Bryn | *yn gysylltiedig â Cheinewydd* | 5 |
| Pentre-llwyn/Gorrig | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Pen-y-parc | *yn gysylltiedig ag Aberteifi* | 5 |
| Plwmp | *yn gysylltiedig â Cheinewydd* | 5 |
| Ponterwyd | *yn gysylltiedig â Phontarfynach* | 5 |
| Pontgarreg | *yn gysylltiedig ag Aber-porth* | 5 |
| **Pontrhydfendigaid** | | **4/5** |
| Pont-rhyd-y-groes | *yn gysylltiedig â Phontrhydfendigaid* | 5 |
| Pren-gwyn | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Rhydlewis | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Rhydowen | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Rhydyfelin | *yn gysylltiedig ag Aberystwyth* | 5 |
| Sarnau | *yn gysylltiedig ag Aber-porth* | 5 |

| Enw'r anheddiad | Yr anheddiad y mae'n gysylltiedig ag ef | Parth |
|---|---|---|
| Silian | *yn gysylltiedig â Llanbedr Pont Steffan* | 5 |
| Talgarreg | *yn gysylltiedig â Llandysul* | 5 |
| Tal-sarn | *yn gysylltiedig â Felin-fach* | 5 |
| **Tal-y-bont** | | **4/5** |
| Tan-y-groes | *yn gysylltiedig ag Aber-porth* | 5 |
| Tre Taliesin | *yn gysylltiedig â Thal-y-bont* | 5 |
| **Tregaron** | | **3/4** |
| Tre'r-ddôl | *yn gysylltiedig â Thal-y-bont* | 5 |
| Tre-saith | *yn gysylltiedig ag Aber-porth* | 5 |
| Ynys-las | *yn gysylltiedig â'r Borth* | 5 |
| Ysbyty Ystwyth | *yn gysylltiedig â Phontrhydfendigaid* | 5 |
| Ystrad Meurig | *yn gysylltiedig â Phontrhydfendigaid* | 5 |